IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 1 TACHWEDD 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Michael (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ferguson-Thorne a/ac Lancaster |

5 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim.

6 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - BURGER KING, QUEENS STREET

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Chris Baker, wedi'i gynrychioli gan Bill Parry |
| Awdurdodau Cyfrifol: | Will Tapper (Heddlu De Cymru) |
| Pobl Eraill: | Y Cynghorydd Norma Mackie (Aelod Ward) |

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Unionburger Limited mewn perthynas â Burger King, 70 Heol y Frenhines, Caerdydd, CF10 2GQ.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â’r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:
(i) Darparu lluniaeth gyda’r hwyrnos (tu mewn)
(2) Disgrifiad o’r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):
"Safle bwyty Burger King llawr gwaelod yn unig mewn lleoliad yng nghanol y ddinas"
(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i’r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy’n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.
Dydd Llun i Ddydd Sul 07:00 i 04:00
(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:
(i) Darparu lluniaeth gyda’r hwyrnos (tu mewn).
Dydd Llun i Ddydd Sul: 23:00 i 04:00.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Fe wnaeth Mr Bill Parry annerch yr Is-bwyllgor ar ran yr ymgeiswyr. Cafodd yr aelodau wybod bod yr ymgeiswyr yn ceisio cwtogi'r oriau a ganiateir ar gyfer lluniaeth hwyr y nos tan hanner nos, yn dilyn cytundeb rhwng yr ymgeiswyr a Heddlu De Cymru. O ganlyniad i'r cytundeb hwn, roedd yr heddlu wedi cytuno i dynnu eu sylwadau yn ôl.

Esboniodd Mr Parry fod y safle yn masnachu tan 11pm ar hyn o bryd a'u bod am ymestyn hynny i hanner nos. Pwysleisiodd eu bod wedi ymgynghori â'r heddlu yn

benodol a dod o hyd i drefn o amodau oedd yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Roedd yn safle a reolir yn dda gan bobl brofiadol ac nid oedd yn fagnet ar gyfer trosedd ac anhrefn. Roedden nhw wedi bod yn masnachu yn Heol y Frenhines ers mis Mai 2023, ac yn flaenorol roedden nhw wedi bod yno ers blynyddoedd lawer ond bu'n rhaid iddyn nhw gau a dechrau eto oherwydd Covid a materion les. Teimlai fod hwn yn estyniad cymedrol y gellid ei ganiatáu o dan yr amgylchiadau.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd yr ymgeisydd nad oedd unrhyw achosion o drosedd nac anhrefn wedi bod yn y safle ers iddo agor ym mis Mai.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, awgrymodd yr ymgeisydd fod y newid o ofyn am 3am yn eu cais cychwynnol i hanner nos bellach yn ddewis pragmatig, gan ystyried yr amodau cynllunio a'r sylwadau a wnaed. Yn benodol, roedden nhw wedi gwrando ar yr heddlu, oedd yn teimlo bod y materion mwyaf arwyddocaol gyda throsedd ac anhrefn yn tueddu i ddigwydd ar ôl hanner nos.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Cadarnhaodd y Cwnstabl Will Tapper fod Heddlu De Cymru yn tynnu eu sylwadau yn ôl o ganlyniad i'r cytundeb gyda'r ymgeiswyr.

Sylwadau Unigolion Eraill

Cyfeiriodd y Cynghorydd Norma Mackie at yr Is-bwyllgor fel Aelod y Ward, gan dynnu sylw at y risg o dirlawnder mewn ardal a oedd eisoes â llawer o fwytai tecawê. Roedd hi'n pryderu y byddai cardotwyr stryd yn eistedd y tu allan i'r safle, a bu rhai materion a digwyddiadau mawr y tu allan i siopau tecawê yn y gorffennol, weithiau cyn hanner nos. Awgrymodd y byddai'n llawer haws cael estyniad arall unwaith y byddai hyn yn cael ei ganiatáu. Yn olaf, pwysleisiodd fod ei gwrthwynebiad yn seiliedig ar nifer y siopau tecawê yn yr ardal, ac roedd yn cydnabod bod hwn yn safle sy'n cael ei redeg yn dda.

Ymatebodd yr ymgeisydd na fyddai'n hawdd amrywio'r amodau ymhellach yn y dyfodol. Roedd yr amodau cynllunio ond yn caniatáu iddo fod ar agor tan hanner nos felly byddai'n rhaid iddynt fynd yn ôl at y Pwyllgor Cynllunio er mwyn cael amrywiad.

Penderfyniad

Trafododd yr Is-bwyllgor y cais yn ôl ei rinweddau unigol ac ystyriodd holl bapurau'r pwyllgor, y canllawiau statudol a wnaed dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, dogfen Datganiad Polisi Trwyddedu ac Asesiad Effaith Gronnol y Cyngor.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y cais wedi'i ddiwygio cyn y gwrandawiad i leihau'r awr derfynol o 04:00 awr i hanner nos, ochr yn ochr â'r amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru a amlinellir yn yr adroddiad. O ganlyniad i'r gwelliant i'r awr derfynol, tynnodd Heddlu De Cymru eu gwrthwynebiad yn ôl cyn y gwrandawiad.

Roeddent yn derbyn bod llawer o achosion o drosedd ac anhrefn yn gysylltiedig ag economi'r nos yng nghanol y ddinas yn gyffredinol wedi digwydd ar ôl hanner nos, ac wrth i'r cais gael ei ddiwygio, ni fyddai'r safle bellach ar agor yn ystod yr adegau pan fyddai'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan yr Aelod Ward lleol yn ofalus ond teimlai na fyddai'r gostyngiad yn yr oriau a gynigir gan yr ymgeisydd a'r amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu nac yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol yn yr ardal.

Felly, penderfynodd yr Is-bwyllgor GYMERADWYO'r cais, yn amodol ar yr amodau ychwanegol y cytunwyd arnynt ‘r awr gau wedi’i chytuno.

7 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - BURGER KING, SOUTHGATE HOUSE

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Chris Baker, wedi'i gynrychioli gan Bill Parry |
| Awdurdodau Cyfrifol: | Will Tapper (Heddlu De Cymru) |
| Pobl Eraill: | Y Cynghorydd Norma Mackie (Aelod Ward) |

Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Unionburger Limited mewn perthynas â Burger King, Uned 3, SOuthgate House, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW.

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â’r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:
(i) Darparu lluniaeth gyda’r hwyrnos (dan do ac awyr agored)
(2) Disgrifiad o’r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):
"Safle bwyty Burger King llawr gwaelod yn unig mewn lleoliad yng nghanol y ddinas"
(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i’r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy’n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.
Dydd Llun i Ddydd Sul 07:00 i 03:00
(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:
(i) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do ac yn yr awyr agored).
Dydd Llun i Ddydd Sul: 23:00 i 03:00.

Sylwadau’r Ymgeisydd

Fe wnaeth Mr Bill Parry annerch yr Is-bwyllgor ar ran yr ymgeiswyr. Cafodd yr aelodau wybod bod yr ymgeiswyr yn ceisio cwtogi'r oriau a ganiateir ar gyfer lluniaeth hwyr y nos tan hanner nos, yn dilyn cytundeb rhwng yr ymgeiswyr a Heddlu De Cymru. O ganlyniad i'r cytundeb hwn, roedd Heddlu De Cymru wedi cytuno i dynnu eu sylwadau yn ôl.

Nodwyd bod y cais yn debyg iawn i'r eitem flaenorol, gydag ychwanegu hatsh ar gyfer casglu archebion i'w danfon gan negeswyr. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio gan agregwyr bwyd cymeradwy (h.y. gyrwyr danfon o gwmnïau fel Deliveroo) i gasglu bwyd, ac ni fyddai'n agored i aelodau'r cyhoedd. Roedd y safle eisoes ar agor tan 11pm, ac roedd wedi bod ers mis Ebrill 2023. Roedd yn cydnabod yr angen i

ystyried y polisi dirlawnder ond teimlai na fyddai'r cais hwn yn effeithio ar hynny nac yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn. Awgrymodd pe bai unrhyw beth, y byddai'n tynnu pwysau oddi ar safleoedd eraill. Roedd yn uned cyfaint isel na fyddai'n arwain at fwy o yrwyr dosbarthu bwyd ar y strydoedd. Roedd yr heddlu wedi tynnu eu gwrthwynebiadau yn ôl wythnos neu ddwy yn ôl ac yn hapus gyda'r amodau a gytunwyd.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd yr ymgeisydd nad oedd unrhyw achosion o drosedd nac anhrefn wedi bod yn y safle ers iddo agor ym mis Ebrill.

Sylwadau’r Awdurdod Cyfrifol

Cadarnhaodd y Cwnstabl Will Tapper fod Heddlu De Cymru yn tynnu eu sylwadau yn ôl o ganlyniad i'r cytundeb gyda'r ymgeiswyr.

Sylwadau Unigolion Eraill

Cyfeiriodd y Cynghorydd Norma Mackie at yr Is-bwyllgor fel Aelod y Ward, gan awgrymu y byddai mwy o adeiladau tecawê yn dod â mwy o bobl i'r ardal yn hwyr yn y nos, a'i bod yn ardal gynyddol nad oedd yn cael ei blismona'n drwm. Ychwanegodd ei bod wedi bod dan yr argraff eu bod yn gwneud cais i fod yn agored i aelodau'r cyhoedd tan 3am.

Eglurodd yr ymgeisydd y byddai'r hatsh ar gyfer gyrwyr danfon ar agor tan 3am, ond yr amser cau i'r cyhoedd fyddai hanner nos.

Penderfyniad

Trafododd yr Is-bwyllgor y cais yn ôl ei rinweddau unigol ac ystyriodd holl bapurau'r pwyllgor, y canllawiau statudol a wnaed dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, dogfen Datganiad Polisi Trwyddedu ac Asesiad Effaith Gronnol y Cyngor.

Nododd yr Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd yn cytuno amodau gyda Heddlu De Cymru cyn y gwrandawiad ac o ganlyniad cafodd eu gwrthwynebiad ei dynnu'n ôl. Roedd hyn yn cynnwys amod y byddai'r hatsh gweini ond yn cael ei ddefnyddio ar gyfer agregwyr danfon cartref, ac na fyddai'r safle yn caniatáu mynediad cyhoeddus y tu hwnt i 00:00 awr.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor fod llawer o ddigwyddiadau o drosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag economi’r nos canol dinas Caerdydd yn gyffredinol wedi digwydd ar ôl hanner nos. Gan nad oedd y cynnig yn caniatáu i gwsmeriaid brynu bwyd poeth na diod ar ôl hanner nos, a dim ond cydgasglu dosbarthu bwyd cydnabyddedig a ganiataodd, lliniaru'u pryderon.

Felly, ystyriodd yr Is-bwyllgor y sylwadau gan yr Aelod Ward lleol ond teimlai fod y cyfyngiadau a gytunwyd gyda Heddlu De Cymru yn llwyddo i oresgyn y rhagdybiaeth wrthbrofadwy yn y ddogfen Asesiad Effaith Gronnol, ac ni fyddai'r cais yn effeithio'n negyddol ar yr amcanion trwyddedu nac yn ychwanegu at yr effaith gronnol negyddol yn yr ardal.

Felly, penderfynodd yr Is-bwyllgor GYMERADWYO'r cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

8 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - STATE OF LOVE & TRUST

Yn bresennol:

Ymgeisydd: Nathaniel Williams

Awdurdodau Cyfrifol:

Pobl Eraill:

Ffurflen Gais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan SOLAT Wine Beer Spirits Ltd mewn perthynas â State of Love & Trust, Uned Fasnachol 5, Amber Vista, Clearwater Way, Cyncoed, Caerdydd, CF23 6DZ.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:
(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):
*"Bydd yr adeilad yn siop a bar gwin, cwrw a gwirodydd hybrid. Bydd gan y busnes ddau bwynt gwasanaeth; un gyda ffocws manwerthu ar gyfer gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle, y llall yn ardal gwrw drafft, gwinoedd mewn gwydrau a fydd yn gwasanaethu elfen gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle'r busnes. Bydd y busnes yn darparu seddi dan do ac yn yr awyr agored fel na fydd unrhyw yfed alcohol wrth sefyll.*
*Bydd toiledau cwsmeriaid, allanfeydd tân addas ac awyru yn cael eu darparu gan y busnes. Mae'r cyfleusterau hyn wedi cael eu hasesu a'u cymeradwyo gan reolaeth adeiladu (Clark Banks)".*
(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol.
Dydd Llun i Ddydd Sul: 09:00 i 23:00
(4) Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:
(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:
Dydd Llun i Ddydd Sul: 09:00 i 23:00.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Eglurodd yr ymgeisydd ei fod yn bwriadu cychwyn busnes teuluol bach yn y ganolfan newydd yng Nghyncoed. Byddai'n lleoliad hybrid lle gallai cwsmeriaid roi cynnig ar y pethau yr oeddent yn eu stocio. Cydnabu rwystredigaethau dilys y preswylydd a oedd wedi gwrthwynebu, gan nodi bod llawer o newid yn digwydd yn y maes hwnnw, ond awgrymodd y gallent fod wedi credu'n anghywir y byddai'r busnes yn gwerthu llawer o win, cwrw a gwirodydd, pan fyddent mewn gwirionedd yn gwerthu alcohol arbenigol am bris premiwm.

Ychwanegodd yr ymgeisydd eu bod yn bwriadu gweithredu gydag oriau cyfyngedig, a'u bod wedi gwneud cais am baramedrau ehangach nag y byddent erioed ar agor ar eu cyfer. Er enghraifft, adeg y Nadolig byddent yn agor am 10am, ond nid yn ystod gweddill y flwyddyn. Nid oedd wedi bod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau ar ardaloedd preswyl tua 11pm, ac roedd wedi cytuno gyda phob argymhelliad a wnaed gan yr heddlu. Doedd ganddo ddim bwriad creu gofod oedd yn cael effaith negyddol ar y gymuned.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, eglurodd yr ymgeisydd ei fod wedi dechrau gweithredu safle trwyddedig ar Heol y Porth yn 2014 ac wedi bod yno am ddwy flynedd cyn dod yn rheolwr gweithrediadau ar gyfer y Bottle Shop, a oedd â lleoliadau ym Mhenarth, Y Rhath a Phontcanna. Roedd ganddo ef a'i bartner busnes brofiad yn y math hwn o amgylchedd hybrid, ar ôl rheoli trwyddedau safle o'r blaen a chydymffurfio ag amodau trwyddedu. Nawr roedd am greu ei fersiwn ei hun o bethau yn yr ardal fach hon gyda ffocws ar fanwerthu, gyda hyd at 800 o eitemau ar y silffoedd.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, amlinellodd yr ymgeisydd oriau agor safonol o 11am-8pm ddydd Mawrth a dydd Mercher, 11am-10pm o ddydd Iau i ddydd Sadwrn, hanner dydd i 7pm ddydd Sul ac ar gau ddydd Llun, yn unol â phreswylfeydd masnachu eraill yno.

<u>I Grynhoi</u>

Awgrymodd yr ymgeisydd, er mai busnes newydd oedd hwn, felly nid oedd cynsail o ran sut yr oeddent yn gweithredu, eu hamcan oedd bod yn rhan o'r gymuned, a'r rheswm pam y llwyddodd eu safle blaenorol oedd oherwydd eu bod yn integreiddio eu hunain iddi. Roedd yn gobeithio, pe bai wedi gallu siarad â'r gwrthwynebydd yn uniongyrchol, yna byddai'n deall yr hyn yr oeddent yn ceisio'i wneud. Roedd ef a'i wraig hefyd yn berchen ar Pantry ym Mhen-y-lan, oedd wedi wynebu gwrthwynebiadau gan drigolion yn y dechrau ond oedd wedi dod yn rhan go iawn o'r gymuned.

<u>Penderfyniad</u>

Trafododd yr Is-bwyllgor y cais yn ôl ei rinweddau unigol ac ystyriodd holl bapurau'r pwyllgor, y canllawiau statudol a wnaed dan adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, dogfen Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor.

Derbyniodd yr Is-bwyllgor ddisgrifiad yr ymgeisydd fod y safle wedi'i fwriadu fel lleoliad hybrid nad oedd wedi'i fwriadu yn unig i hybu yfed ar y safle. Roeddent hefyd yn derbyn mai bwriad y safle oedd cael ffocws cymunedol.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y gwrthwynebiad gan breswylydd lleol yn ofalus, fodd bynnag, nid oeddent yn teimlo y byddai'r cais yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Nodwyd hefyd nad oedd gwrthwynebiadau'n ymwneud â pharcio na'r effaith bosibl ar werthoedd eiddo cyfagos yn ystyriaeth i'r pwyllgor hwn.

Felly, penderfynodd yr Is-bwyllgor i GYMERADWYO'r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdodau cyfrifol a amlinellir yn yr adroddiad.

9 : CAIS AM ROI TRWYDDED BERSONOL

Yn bresennol:

Ymgeisydd: Jarryd Clifford

Awdurdodau Cyfrifol:

Pobl Eraill:

Cais:

Derbyniwyd cais am Drwydded Bersonol gan Mr Jarryd Anthony Clifford.

Roedd yr ymgeisydd wedi dweud nad oes ganddo Drwydded Bersonol ac nad yw wedi gwneud cais i unrhyw awdurdod arall am un. Mae wedi darparu'r holl ddogfennau sy'n ofynnol gan Ddeddf Trwyddedu 2003. Datgelodd gwiriad cofnod troseddol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd wybodaeth am hanes euogfarn.

Ymgynghorwyd â Heddlu De Cymru ynghylch y cais ac maent wedi nodi eu bod, o ystyried hanes yr euogfarn, yn gwrthwynebu rhoi Trwydded Bersonol.

Sylwadau'r Ymgeisydd:

Pwysleisiodd yr ymgeisydd ei fod yn difaru yfed a gyrru'n ôl yn 2021, ac nad oedd esgus dros yr hyn a wnaeth. Ar y pryd roedd yn cael trafferth gydag unigedd y cyfnod clo mewn pentref bach, ond roedd bellach wedi cael trefn ar ei fywyd ac nid oedd eisiau rhywbeth gwirion a wnaeth ychydig flynyddoedd yn ôl i effeithio ar ei gyfleoedd yn y dyfodol. Ar hyn o bryd roedd yn arweinydd tîm gyda Stonegate a byddai cael trwydded bersonol yn helpu i'w alluogi i symud ymlaen ymhellach yn y sefydliad. Ychwanegodd ei fod, er mwyn gwneud iawn a chefnogi'r gymuned yr oedd yn ei charu, wedi bod yn allweddol i weithredu rhaglenni a mesurau i gefnogi pobl fregus, â phroblemau iechyd meddwl a'r gymuned LHDT.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, eglurodd yr ymgeisydd fod y troseddau pellach ers 2021 a grybwyllir yn y gwaith papur yn cyfeirio at sut yr oedd wedi mynychu'r llys oherwydd ei fod wedi colli diwrnod o wasanaeth cymunedol. Eglurodd mai ychydig iawn o staff oedd gan ei weithle yn ystod y cyfnod pan oedd i fod i gwblhau ei oriau, a'i fod yn gwneud llawer o sifftiau ychwanegol, felly ni allai ddod o hyd i amser ar ei gyfer. Roedd yn cyfathrebu'n gyson â'i swyddog prawf drwy gydol y broses.

Wrth ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, ailadroddodd yr ymgeisydd fod ei gais yn ymwneud â dilyniant gyrfa, a fyddai'n cael ei wella'n fawr trwy gael trwydded bersonol.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol:

Wrth siarad ar ran Heddlu De Cymru, esboniodd Tony Bowley y rhesymau dros wrthwynebiad yr heddlu i ganiatáu'r drwydded hon. Roedd gan yr ymgeisydd euogfarn droseddol heb ei disbyddu am yrru cerbyd o dan ddylanwad ym mis Ebrill 2021, wedi'i waethygu trwy fethu â chydymffurfio â'r gorchymyn gwasanaeth cymunedol llawn ym mis Mai 2022, y cafodd ddirwy amdano. Arhosodd y gorchymyn

wedyn yn ei le ond ni wnaeth ei gwblhau o hyd a chafodd ei ddwyn yn ôl i'r llys ym mis Rhagfyr 2022 ac Ebrill 2023 o ganlyniad. Ychwanegodd cynrychiolydd yr heddlu bod meddu ar drwydded bersonol yn fraint ac nid hawl, ac yn un y dylai dim ond y bobl fwyaf cyfrifol ei chael.

Holodd cynrychiolydd yr heddlu amgylchiadau'r drosedd yfed a gyrru, gan nodi ei fod wedi cael gwaharddiad o ddwy flynedd rhag gyrru yn ychwanegol at y 200 awr o wasanaeth cymunedol, ond fel arfer byddai'r gwaharddiad yn 12 mis. Eglurodd yr ymgeisydd na fu unrhyw amgylchiadau gwaethygol gyda'i drosedd, ac nad oedd neb arall wedi cymryd rhan. Eglurodd iddo gael ei anafu yn cwympo allan o ffenest tra'n byw mewn pentref anghysbell ac angen cymorth meddygol, felly gyrrodd i'r orsaf heddlu leol lle cafodd brawf anadlu. Efallai mai'r gwaharddiad hirach oedd oherwydd bod y drosedd wedi digwydd yn yr Alban, ond nid oedd yn siŵr.

<u>I Grynhoi</u>

Wrth grynhoi, ailadroddodd yr ymgeisydd ei fod wedi gwneud peth gwirion yn 2021 ac nad oedd yn bwriadu gwneud unrhyw beth tebyg eto. Roedd y rhwystrau a wynebodd o ganlyniad yn atgof cyson o'r hyn a wnaeth, ond roedd hefyd eisiau symud ymlaen yn ei yrfa, bod yn aelod da o'r gymuned a gwneud ei rieni'n falch.

<u>Penderfyniad</u>

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gais am drwydded bersonol yn unol â Deddf Trwyddedu 2003 a'r canllawiau cysylltiedig.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor yn ofalus y gynrychiolaeth a gyflwynwyd gan Mr Clifford ei fod yn byw mewn rhan anghysbell o'r Alban adeg y drosedd, ac roedd hyn o gwmpas cyfnod y cyfnod clo yn ystod pandemig Covid-19. Roedden nhw hefyd o'r farn bod Mr Clifford yn arweinydd tîm ar hyn o bryd ac roedd angen trwydded bersonol er mwyn symud ymlaen i swydd fwy rheolaethol o fewn y sefydliad.

Nododd yr Is-bwyllgor fod yr euogfarn yn drosedd berthnasol at ddibenion Deddf Trwyddedu 2003, ac nad oedd yr euogfarn wedi'i disbyddu eto. Ar ben hynny, nodwyd eu bod, ochr yn ochr â'r euogfarn wreiddiol, yn digwydd bod nifer o achosion o fethu â chydymffurfio â'r gorchymyn cymunedol.

Teimlai'r Is-bwyllgor fod yr euogfarn, ynghyd â methiant i gydymffurfio â'r gorchymyn ar sawl achlysur, yn dangos diffyg parch at ddifrifoldeb yr euogfarn. Nodwyd bod cyfrifoldeb sylweddol ar redeg safle trwyddedig ac nad oeddent yn fodlon bod Mr Clifford yn dangos y byddai caniatáu'r cais hwn yn hyrwyddo'r amcan atal troseddu.

Felly, penderfynodd yr Is-bwyllgor WRTHOD y cais i hyrwyddo'r amcan atal troseddu.

10 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Doedd dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am